

## Absenoldeb mewn Ysgolion Uwchradd, 2018/19: Nodiadau

### Cyd-destun

#### Polisi/Gweithredol

Rhaid i bob plentyn sy'n cael addysg ysgol yn ystod y diwrnod ysgol arferol gael ei roi ar y gofrestr bresenoldeb. Mae cofrestr bresenoldeb yn cofnodi presenoldeb pob disgybl ym mhob sesiwn y mae'r ysgol ar agor i ddisgyblion, a rhaid ei galw ddwywaith y dydd: ar ddechrau sesiwn y bore ac unwaith yn ystod sesiwn y prynhawn. Rhaid i'r gofrestr ddangos a yw pob plentyn yn bresennol, neu'n cymryd rhan mewn gweithgaredd addysgol cymeradwy oddi ar y safle (dylid nodi eu bod yn bresennol os ydynt yn mynd i'r ddarpariaeth honno), neu'n absennol. Yn ogystal â hynny, lle bo disgybl o oedran ysgol orfodol yn absennol, rhaid i'r gofrestr ddangos hefyd a gafodd yr absenoldeb ei awdurdodi ai peidio.

Mae gwella lefelau presenoldeb yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Gweinidog. Awgrymir tystiolaeth fod absenoldeb yn cael effaith ar gyrhaeddiad dysgwr. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau fod pobl ifanc yn cael pob cyfle i gyrraedd eu potensial, gan gynnwys sicrhau presenoldeb cyson yn yr ysgol. Mae'r [Fframwaith Presenoldeb Ar Gyfer Cymru Gyfan](#) yn parhau i chwarae rôl bwysig yng nghyd-destun gwella ysgolion, gan ddarparu dull safonedig a chadarn i ddadansoddi data.

#### Ffynhonnell a chwmpas y data

Data presenoldeb lefel-disgybl yw'r Cofnod o Bresenoldeb Disgyblion, a gasglwyd yn electronig gan ysgolion a gynhelir, sydd o dan ofal eu hawdurdod lleol. Caiff data presenoldeb ysgolion annibynnol eu casglu drwy arolwg papur gwirfoddol. Caiff yr un ffurflen ei hanfon i ysgolion arbennig a gynhelir drwy eu hawdurdodau lleol ac mae'n orfodol i ysgolion arbennig ymateb. Y Gwasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddi o fewn Llywodraeth Cymru sy'n trefnu i gasglu'r data.

Mae'r wybodaeth am absenoldeb yn y Datganiad Ystadegol cyntaf hwn yn ymwneud â chanran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd gan ddisgyblion yn sgil absenoldeb anawdurdodedig a chyffredinol o ddechrau'r flwyddyn academaidd hyd ŵyl banc diwedd Mai. Mae disgyblion o oedran ysgol orfodol (5-15) sydd wedi'u cofrestru mewn ysgolion uwchradd a gynhelir a disgyblion 11-15 oed sydd wedi'u cofrestru mewn ysgolion arbennig ac annibynnol wedi'u cynnwys yn y data (y disgyblion a oedd yr oedran hynny ar 31 Awst cyn dechrau'r flwyddyn academaidd). Daeth data presenoldeb i law gan 269 o ysgolion a oedd â disgyblion o fewn y grwpiau oedran hyn yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19.

Caiff y data am brydau ysgol am ddim eu casglu drwy Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) mis Ionawr ac maent yn seiliedig ar gyfartaledd 3 blynedd. Lle mae ysgolion wedi'u cyfuno, mae'r cyfartaledd 3 blynedd ar gyfer yr ysgol newydd yn cynnwys data am brydau ysgol am ddim ar gyfer ysgolion blaenorol y flwyddyn neu'r blynyddoedd pan oeddent ar agor cyn eu cyfuno.

Mae "Gwryw" a "benywaidd" bellach yn cael eu defnyddio yn lle "bachgen" a "merch" i fod yn gyson â'r system gasglu data ac allbynnau eraill.

# Gwybodaeth allweddol am ansawdd

## Perthnasedd

Caiff yr ystadegau eu defnyddio o fewn Llywodraeth Cymru a thu allan er mwyn monitro tueddiadau addysgol ac fel sylfaen i waith dadansoddi pellach ar y data gwaelodol. Dyma rai o'r prif ddefnyddwyr:

- Gweinidogion a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Y Gyfarwyddiaeth Addysg
- Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.
- Adrannau eraill Llywodraeth Cymru
- Fy Ysgol Leol
- Yr Adran Addysg yn Lloegr.
- adrannau eraill y Llywodraeth.
- awdurdodau lleol ac ysgolion.
- Swyddfa Archwilio Cymru.
- y gymuned ymchwil.
- myfyrwyr, academyddion a phrifysgolion.
- dinasyddion unigol, cwmnïau preifat a'r cyfryngau.

Defnyddir yr ystadegau hyn mewn amrywiol ffyrdd. Dyma rai enghreifftiau:

- cyngor i Weinidogion.
- pecynnau data craidd addysg i Gymru gyfan (sydd wedi disodli Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion).
- gwaith cymharu â meincnodi ALLau ac ysgolion
- llywio'r broses o benderfynu ar bolisi addysg yng Nghymru.
- datblygu system Categoriaddio Ysgolion Cymru.
- rhoi gwybodaeth i Estyn yn ystod arolygiadau ysgolion.
- cyfrannu at y Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol.
- meincnodi rhyngwladol.
- elfen addysg Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.
- helpu gyda gwaith ymchwil i gyrhaeddiad addysgol.

## **Cywirdeb**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos ag ysgolion ac awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod data yn cael eu dilysu cyn i dablau gael eu cyhoeddi. Caiff y data eu casglu i ffurflen electronig a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru drwy DEWi, system ar-lein ddiogel i drosglwyddo data a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r broses yn cynnwys sawl cam awtomatig lle caiff y data eu dilysu a'u gwirio i sicrhau eu bod yn gwneud synnwyr, er mwyn sicrhau data o ansawdd uchel.

Yn ogystal, anfonwyd tabl at bob awdurdod lleol yn cynnwys crynodeb o'r holl ddata ar gyfer eu hysgolion uwchradd a gynhelir, a gofynnwyd iddynt eu gwirio. Anfonwyd tabl tebyg i awdurdodau lleol er mwyn iddynt wirio data eu hysgolion arbennig. Yn y gorffennol anfonwyd llythyr i ysgolion arbennig i ofyn iddynt ddilysu eu data.

## **Amseroldeb a phrydlondeb**

Roedd DEWi ar gael i lanlwytho ffeiliau ar 24 Mai 2019, a gofynnwyd i ysgolion uwchradd a gynhelir gyflwyno data presenoldeb ar gyfer pob disgybl rhwng 5 a 15 oed a oedd wedi'u cofrestru yn yr ysgol o ddechrau Medi 2018 tan ŵyl banc diwedd Mai 2019. Gofynnwyd i ysgolion canol, ysgolion arbennig ac annibynnol gyflwyno data presenoldeb ar gyfer disgyblion rhwng 11 a 15 oed ar y gofrestr o ddechrau Medi 2018 tan ŵyl banc diwedd Mai 2019. Gofynnwyd i ysgolion ac awdurdodau lleol wedyn ddilysu eu data o fewn cyfnod dilysu.

## **Hygyrchedd ac eglurder**

Caiff y Datganiad Ystadegol Cyntaf hwn ei rag-gyhoeddi ac yna'i gyhoeddi ar adran [wefan Ystadegau ac ymchwil Llywodraeth Cymru](#). Ychwanegir tablau manylach ar [StatsCymru](#), gwasanaeth rhad ac am ddim sy'n caniatáu i bobl weld, golygu a lawrlwytho data.

## **Cymaroldeb a chydlyniaeth**

Casglwyd data am absenoldeb lefel-disgybl gan ysgolion uwchradd a gynhelir yn 2007/08 am y tro cyntaf. Fodd bynnag, nid yw'r diffiniadau a'r cyfrifiadau yn y broses gasglu wedi newid, felly ni effeithiwyd ar gyfatebiaeth dros amser.

Yn 2007/08 fe'i gwnaed yn orfodol i ysgolion uwchradd a gynhelir ddarparu gwybodaeth yn ôl rhyw'r disgyblion, ond parhaodd yn rhywbeth gwirfoddol i ysgolion arbennig ac annibynnol. Darparodd 262 o ysgolion (97.4 y cant) ddata ar sail rhyw'r disgyblion yn 2018/19, o gymharu â 271 o ysgolion (97.8 y cant) yn 2017/18. Nid ydym yn argymhell cymharu newidiadau o ran absenoldeb yn ôl rhyw'r disgyblion o un flwyddyn i'r llall cyn 2007/08, gan fod gwahanol ysgolion wedi ymateb bob blwyddyn.

Ers 2013/14, cyfrifwyd canrannau absenoldeb gan rannu nifer y sesiynau hanner diwrnod o absenoldeb â chyfanswm nifer y sesiynau pan oedd disgyblion ar y gofrestr yn yr ysgol, a lluosu hynny â 100. Oherwydd y newid yn y fethodoleg, dylid bod yn ofalus wrth gymharu data ysgolion arbennig ac annibynnol cyn ac ar ôl 2013/14.

## Statws Ystadegau Gwladol

Mae [Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig](#) wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 ac sy'n golygu eu bod yn cydymffurfio â'r [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau](#).

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu fod yr ystadegau swyddogol yn cwrdd â'r safonau uchaf o ddbynadwyaeth, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd o'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Ceir eu dyfarnu fel statws Ystadegau Gwladol yn dilyn asesiad gan fraich rheoli Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig. Mae'r Awdurdod yn ystyried os ydy'r ystadegau yn cwrdd â'r safonau uchaf o gydymffurfiaid â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ychwanegu i benderfyniadau a dadlau cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw i gynnal cydymffurfiaid â'r safonau a ddisgwyllir o Ystadegau Gwladol. Os ydym yn pryderu os yw'r ystadegau yma yn dal i gwrdd â'r safonau priodol, byddwn yn trafod hyn yn brydlon gyda'r Awdurdod. Gall statws Ystadegau Gwladol gael ei diddymu ar unrhyw bryd pan mae'r safonau uchaf heb eu cynnal, a'i ddyfarnu unwaith eto pan mae'r safonau yn cael eu hadfer.

Cadarnhawyd y statws parhaus o'r ystadegau hyn fel Ystadegau Gwladol yn 2011 yn dilyn gwiriad cydymffurfiaeth gan y [Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau](#) (Saesneg). Cynhaliwyd yr [asesiad llawn](#) diweddaraf o'r ystadegau (Saesneg) hyn yn erbyn y Cod Ymarfer yn 2011.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFG)

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol" sy'n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Cafodd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol eu gosod ym Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn [adroddiad Llesiant Cymru](#).

Gwybodaeth bellach am [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Manylion pellach

Mae'r ddogfen hon ar gael yn: <https://llyw.cymru/absenoldeb-o-ysgolion-uwchradd-medi-2018-i-awst-2019>

Cyhoeddwyd ddatganiad tebyg sy'n ymwneud ag absenoldeb o ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig a gynhelir ac ysgolion annibynnol yng Nghymru yn ystod blwyddyn academaidd 2017/18, a elwir yn '[Absenoldeb o Ysgolion Cynradd, 2017/18](#)', ac fe'i cyhoeddwyd ar 13 Rhagfyr 2018. Fe fyddwn yn cyhoeddi absenoldeb o ysgolion cynradd ar gyfer 2018/19 ym mis Rhagfyr 2019.

Mae Lloegr yn cyhoeddi data absenoldeb ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd yn y datganiad ystadegol a elwir yn '[Pupil absence in schools in England: 2017 to 2018](#)' (Saesneg yn unig).

Mae'r Alban yn cyhoeddi data absenoldeb ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd yn eu setiau data atodol. Ceir yr ystadegau diweddaraf ar eu [gwefan](#). (Saesneg yn unig).

Mae Gogledd Iwerddon yn cyhoeddi data absenoldeb ysgolion cynradd ac uwchradd a cheir yr ystadegau diweddaraf [yma](#) (Saesneg yn unig).

## Cael gafael ar y data yn electronig

Mae'r data y tu ôl i rai o'r siartiau a'r tablau yn y datganiad hwn i'w gweld ar wefan [StatsCymru](#) (gwasanaeth rhad ac am ddim sy'n caniatáu i bobl weld, golygu, creu a llawrlwytho tablau a siartiau).

Mae mwy o ddata am y tablau hyn neu ar ddata presenoldeb ar gyfer ysgolion unigol ar gael ar gais; anfonwch e-bost i [ystadegau.ysgolion@llyw.cymru](mailto:ystadegau.ysgolion@llyw.cymru).

Mae data am ysgolion ar gael hefyd ar [Fy Ysgol Leol](#) (a ddiweddarwyd ddechrau 2019)

## Drwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y [Drwydded Llywodraeth Agored v3.0](#) oni nodir yn wahanol.

